

## PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017

**YN BRESENNOL:** Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones  
Y Cynghorydd R Meirion Jones

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Mr Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol**

Dr Haydn Edwards

**WRTH LAW:** Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gwilym O Jones

#### 1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Dr Haydn Edwards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

#### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Dr Haydn Edwards a'r Cynghorydd R Meirion Jones ddiddordeb personol yn Eitem 5 ar y rhaglen.

Gofynnodd y Cadeirydd am iddo gael ei nodi bod y Cynghorydd Gwilym O Jones wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 ar y rhaglen ac nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

#### 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2017 yn gywir.

#### 4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 12 ar y sail y byddai'n**

**golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**5 CYFWELD YR YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER RÔL  
AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y broses gyfweled ar gyfer ymgeiswyr oedd ar y rhestr fer i gael eu penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau.

Ystyriwyd yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad a chynhaliwyd cyfweiliadau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Dewis dim mwy nag un ymgeisydd i'w enwebu gan y Panel i'w benodi i'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cytuno i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr, 2017 yn enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus (yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol).**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymhell i'r Cyngor y dylid penodi'r ail ymgeisydd sydd ar y rhestr fer yn awtomatig i unrhyw sedd wag achlysurol arall ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau pe bai sedd wag yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf (yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol a bod yr ymgeisydd yn cytuno).**

**DR HAYDN EDWARDS  
CADEIRYDD**